

# CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

**Dyddiad y cyfarfod:** 18fed o Orffennaf, 2019  
**Teitl yr Eitem:** ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR  
**Swyddog Cyswllt:** GERAINT OWEN, PENNAETH GWASANAETHAU  
DEMOCRATAIDD

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei galluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

#### CEFNDIR

- 2.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.
- 2.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

#### SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD

- 2.3 Mae'r Cynghorydd Linda Morgan yn wael ar hyn o bryd ac felly mae hyn yn debygol o effeithio ar ei gallu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod, er nad yw'n glir ar hyn o bryd am ba hyd y mae hyn am fod yn broblem.
- 2.4 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei galluogi i barhau i fod yn aelod.
- 2.5 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Linda Morgan fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei phresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor.
- 2.6 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan.

### **3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

#### **3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

##### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o ran priodoldeb.

##### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.